



## **£10,000 o arian Loteri Cenedlaethol i helpu Criccieth gofio ei chyfraniad i'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Mae Cyngor Tref Criccieth wedi derbyn grant gan y Loteri Genedlaethol (Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw) ar gyfer prosiect cyffrous Cofio Cyfraniad Criccieth mewn partneriaeth efo Ysgol Treferthyr, Coleg Meirion-Dwyfor a Neuadd Goffa Criccieth.

Dros y misoedd nesaf bydd plant Ysgol Treferthyr a grŵp o fyfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor yn ymchwilio i ac yn dysgu am gyfraniad Criccieth i'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r effaith a gafodd ar y dref, yr ardal a'r bobl.

Maent eisioes wedi cael ymweliadau llwyddianus iawn i Neuadd Goffa Criccieth, stiwdio Robert Cadwalader a'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac mae ymweliadau i Amgueddfa Lloyd George a Chastell Caernarfon ar y gweill. Byddant hefyd ym cymeryd rhan mewn gweithdai efo arbenigwyr ar dreftadaeth fel Dan Snow a'r Athro Merfyn Jones.

Bydd y plant a'r myfyrwyr hefyd yn cydweithio efo'r beirdd, cerddorion ac artistiaid lleol Twm Morys, Gwyneth Glyn a Ffion Gwyn i greu cyfres o arddangosfeydd, gosodiadau a chofebion cyfoes a fydd yn cael eu dadorchuddio a'u harddangos mewn cyfres o ddigwyddiadau cymunedol yn Nhachwedd 2018 i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd y prosiect yn rhoi cyfle i bawb i ddod at ei gilydd i gofio a choffhau cyfraniad Criccieth a'r ardal i'r rhyfel honno, gyda'r pwyslais ar heddwch ac adlewyrchu ar yr effaith a gafodd ar yr ardal a sut mae plant a phobl ifanc yr ardal wedi dysgu am a dehongli hynny heddiw.

Mae gan Criccieth dreftadaeth unigryw o safbwynt y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r Neuadd Goffa yn destament i 49 o unigolion lleol a fu'n ymladd ac a fu farw ac mae llawer o deuluoedd a disgynyddion yr unigolion hyn yn dal i fyw yng Nghriccieth a'r ardal heddiw ac efo llawer o hanesion a chofnodion. Roedd Criccieth hefyd yn gartref i David Lloyd George, Prif

Weinidog adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn ystod ei gyfnod yn Rhif 10 Stryd Downing roedd llawer o Gymry Cymraeg o Griccieth yn gweithio yno ac mae teuluoedd a disgynyddion llawer ohonynt dal i fyw yng Nghriccieth a'r ardal heddiw ac efo hanesion ac atgofion unigryw sydd ddim i'w gweld yn y llyfrau hanes arferol.

Mae plant Ysgol Treferythyr a myfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor yn cynnal diwrnod agored yn Ysgol Treferythyr ar ddydd Mercher 7fed o Fawrth o 1.30 tan 6 o'r gloch y prynhawn. Bydd croeso i bawb ddod yno efo unrhyw gofnodion a hanesion sydd ganddynt i'w rhannu ac i roi cyfle i'r myfyrwyr greu cofnod digidol ohonynt ar gyfer arddangosfa digidol ac i sicrhau nad ydynt yn cael eu colli.

Dywedodd y Cynghorydd Sian Williams, Cadeirydd Cyngor Tref Criccieth: "Mae Cyngor Tref Criccieth wrth ein bodd fod wedi derbyn cefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn roi cyfle i blant a phobl ifanc yr ardal i ymchwilio i hanesion a'r effaith a gafodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar yr ardal y maent yn cael eu magu ac yn byw ynddo heddiw., gyda phwyslais ar heddwch. Golyga'r grant y cyfle i weithio mewn cydweithrediad gyda phartneriaid ac arbenigwyr adnabyddus ac eang eu maes i wireddu amcanion y prosiect cyffrous hwn, na fyddai'n bosib fel arall."

Dywedodd Richard Bellamy, Pennaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri yng Nghymru: "Roedd effaith y Rhyfel Byd Cyntaf yn bell gyrhaeddol, yn cyffwrdd â bob chornel o'r DU. Trwy ein rhaglen grantiau penodol, sydd wedi ei chreu i gofio'r Canmlwyddiant, rydym, yn helpu cymunedau i gofio a thalu teyrnged i bawb a gymerodd ran. Mae'n arbennig o bwysig bod pobl ifanc yn gwybod am y rôl allweddol chwaraeodd Cymru yn y rhyfel, a dwi'n gobeithio y bydd y prosiect yma yng Nghriccieth yn rhoi pobl mewn cyswllt â gorffennol y dref a'r cyfraniad gwerthfawr wnaeth ei thrigolion 100 mlynedd yn ôl."